



Cysylltwch â ni

Os hoffech wybod rhagor am y gwaith rydym yn ei wneud ar eich rhan i sicrhau eich bod yn cael dël well pan fyddwch yn teithio ar y trên, cysylltwch â ni:

Passenger Focus, Freepost WA1521

Warrington WA4 6GP

Ffôn 08453 022 022

Ffôn testun 0845 850 1354

E-bost info@passengerfocus.org.uk

Gwefan www.passengerfocus.org.uk

Ffocws ar Deithwyr yw enw gweithredu'r Cyngor Teithwyr Rheilffordd.



Beth yw Ffocws ar Deithwyr?

Ffocws ar Deithwyr yw'r corff gwarchod cenedlaethol annibynnol ar gyfer y rheilffyrdd. Ein cenhadaeth yw cael y ddêl orau i deithwyr rheilffordd ym Mhrydain.

Gyda phwyslais cryf ar ymgyrchu ar sail tystiolaeth ac ymchwil, rydym yn sicrhau ein bod yn gwybod beth sy'n digwydd ar y tir. Rydym yn defnyddio ein gwybodaeth i ddylanwadu ar benderfyniadau ar ran teithwyr rheilffordd ac rydym yn gweithio gyda'r diwydiant rheilffordd, grwpiau teithwyr eraill a'r llywodraeth er mwyn gwella safonau teithiau.

Ffoniwch nawr ar **08453 022 022**
Gwefan **www.passengerfocus.org.uk**

Beth mae Ffocws ar Deithwyr yn ei wneud i mi?

Rydym yma i roi lles teithwyr rheilffordd yn gyntaf. Rydym yn gwneud hyn drwy:

Ymgyrchu dros welliannau

- rydym yn casglu ymchwil a gwybodaeth, fel yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol, lle mae 50,000 o deithwyr rheilffordd yn lleisio'u barn am eu teithiau ar y trên, er mwyn i ni ddeall y materion sy'n bwysig i chi
- rydym yn gweithio gyda'r llywodraeth a'r diwydiant rheilffordd i sicrhau yn gwrandewir ar farn teithwyr wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfodol y rheilffyrdd
- rydym yn ffocysu ar nifer o faterion allweddol:
 - costau a thocynnau
 - safon a lefel gwasanaethau
 - buddsoddi yn y rheilffordd

Darparu cyngor ymarferol

- rydym yn darparu cyngor i deithwyr yngl n â sut i fanteisio'n llawn ar y rhwydwaith rheilffordd cenedlaethol, rydym yn egluro eu hawliau ac yn eu helpu pan aiff pethau o chwth
- rydym yn gweithio gyda grwpiau teithwyr eraill i'w cefnogi yn eu gwaith

Datrys cwynion

- os byddwch yn gwneud cwyn ac rydych yn anafdlon ar yr ymateb, gallwn godi'ch cwyn gyda'r cwmni dan sylw